

## Y Pwyllgor Cyllid

---

Lleoliad:  
**Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd**

---

Dyddiad:  
**Dydd Mercher, 11 Rhagfyr 2013**

---

Amser:  
**09:30**

---

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Bethan Davies**  
Clerc y Pwyllgor  
029 2089 8120  
[PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk](mailto:PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk)

---

### Agenda

---

#### **1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon (09:30)**

#### **2 Ymchwiliad i Gyllido Addysg Uwch: Tystiolaeth gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau (09:30–10:45)** (Tudalennau 1 - 25)

Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau  
Neil Surman, Dirprwy Cyfarwyddwr, Addysg Uwch  
Chris Jones, Pennaeth Cyllid Addysg Uwch a Gwella Perfformiad

#### **3 Papurau i'w nodi (10:45)** (Tudalennau 26 - 28)

**Cyllido Addysg Uwch: Gwybodaeth ychwanegol gan y Brifysgol Agored Cymru**  
(Tudalennau 29 - 32)

#### **4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: (10:45)**

Eitem 5.

#### **5 Ymchwiliad i Gyllido Addysg Uwch: Trafod y dystiolaeth a gafwyd (10:45–11:30)**

**6 Ardaloedd Menter: Trafod Adroddiad Pwyllgor (11:30–12:00)**  
(Tudalennau 33 - 61)

**7 Y flaenraglen waith: Gwanwyn 2014 (12:00–12:30)** (Tudalennau 62 - 66)

# Eitem 2

## **Papur gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau i'r Pwyllgor Cyllid ar gyfer eu hadolygiad o Gyllid Addysg Uwch**

### **Cyflwyniad**

1. Fel yr amlinellwyd yn Natganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar addysg uwch, rwyf i'n credu mai stori o lwyddiant sydd i'w adrodd am Addysg Uwch yng Nghymru. Mae'r sector yn cyfrannu dros £3 biliwn y flwyddyn mewn gwariant gros i'n heconomi, a gyda thros 24,000 o weithwyr, mae Prifysgolion yn gyflogwyr sylweddol. Mae iddynt swyddogaeth bwysig yn cefnogi datblygiad sgiliau lefel uwch, yn ogystal â chreu cyfleoedd ar gyfer twf pellach drwy arloesi ac ymgysylltu â busnesau.
2. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau'n ymrwymedig i agor addysg uwch i bawb sydd â'r potensial i elwa yn ei sgil. Rydym ni wedi gweld llwyddiant yma hefyd - mae'r nifer o fyfyrwyr sy'n huanu o Gymru sydd wedi'u cofrestru mewn addysg uwch yn y DU wedi codi o 93,405 yn 2000/01 i 102,110 yn 2011/12.
3. Yn gyffredinol mae ein prifysgolion yn sgorio'n uchel mewn arolygon o foddhad myfyrwyr. Maen nhw wedi bod yn fwy llwyddiannus yn sicrhau cyfranogiad myfyrwyr o gefndiroedd annhraddodiadol nag y mae ardaloedd eraill o Brydain. Mae iddynt gryfderau sylweddol mewn ymchwil ac addysgu ac rydym ni'n falch fod Cymru'n fewnforiwr net o ran myfyrwyr a bod ei system addysg uwch yn uchel ei pharch drwy'r byd.
4. Mae newidiadau i drefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr yng Nghymru a gyflwynwyd yn 2012/13 wedi gosod y sector AU mewn sefyllfa ariannol gryfach o lawer.
5. Bydd rhan un y papur yn amlinellu'r fframwaith llywodraethu a rheoli ar gyfer modelu cyllid myfyrwyr ac addysg uwch i sicrhau bod y polisi'n gynaliadwy, ei effaith ar gyllid, ar reoleiddio a deddfwriaeth ac wrth gwrs ar fyfyrwyr a'u gallu i elwa ar addysg uwch. Byddaf hefyd yn amlinellu fy nghynlluniau at y dyfodol ar gyfer adolygiad o addysg uwch a chyllid myfyrwyr yng Nghymru.
6. Mae rhan dau yr adroddiad yn gyfraniad gan y Prif Gynghorydd Gwyddonol ar berfformiad a chyllido ymchwil yng Nghymru.

### **Incwm a chymorth ffioedd dysgu, yr effaith ariannol**

7. Yn 2010, cyhoeddodd y Gweinidog blaenorol ymateb Llywodraeth Cymru i benderfyniad Llywodraeth y DU i gynyddu ffioedd dysgu'n sylweddol yn Lloegr. Cynyddwyd y ffioedd dysgu sylfaenol yng Nghymru i £6,000 (diwygiwyd yn ddiweddarach i £4,000) y flwyddyn o flwyddyn academaidd 2012/2013 ac mae sefydliadau addysg uwch (SAUau) yn gallu codi ffioedd dysgu o hyd at £9,000 y flwyddyn, cyhyd ag y gallant ddangos ymrwymiad i ehangu mynediad ac amcanion strategol eraill drwy gynlluniau ffioedd a gymeradwyir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Mae myfyrwyr Cymru'n gymwys i gael Grant Ffioedd Dysgu i dalu unrhyw gynnydd gwirioneddol mewn ffioedd.

## **Llywodraethu a rheoli modelu cyllid myfyrwyr a gwariant addysg uwch**

8. Ceir model ariannol soffistigedig yn sail i'r polisi Cyllid Myfyrwyr sy'n rhoi ystyriaeth i'r ddarpariaeth ariannol gyfredol sydd wedi'i neilltuo ar gyfer addysg uwch yng Nghymru yn ogystal â ffynonellau eraill o incwm sefydliadol megis ffioedd dysgu. Caiff rhagolygon eu hadolygu'n rheolaidd wrth i ddata newydd neu gadarnach ymddangos. Caiff rhagolygon wedi'u diweddarau eu cynhyrchu gan yr Adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi ar adegau rheolaidd yn ystod y flwyddyn ariannol er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf am ymddygiad myfyrwyr, tueddiadau demograffig, cyfraddau derbyn, ffactorau cymdeithasol-economaidd a data perthnasol arall yn cael eu hystyried.
9. Caiff penderfyniadau i ddiwygio'r tybiaethau a geir yn y model eu seilio ar gyngor gan Grŵp Defnyddwyr Rhagweld Cymorth Myfyrwyr o swyddogion sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Is-adran Addysg Uwch, y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, yr Is-adran Gwasanaethau Corfforaethol a CCAUC.
10. Yn ogystal â thrafodaethau yn y Grŵp Defnyddwyr Rhagweld Cymorth Myfyrwyr, caiff y tybiaethau modelu lefel uchel eu trafod yn y Bwrdd Prosiect Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr a Bwrdd y Rhaglen Cyflawni Addysg Uwch. Mae'r byrddau hyn yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru a phartneriaid cyflenwi allweddol gan gynnwys y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr, CCAUC, Addysg Uwch Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
11. Caiff y tybiaethau, data a ffactorau macro economaidd diwygiedig eu gosod yn y model cyllid myfyrwyr, sy'n cynhyrchu rhagolygon y dyfodol.

## **Modelu ariannol gwreiddiol y grant ffioedd dysgu (2010/11)**

12. I gefnogi'r newidiadau polisi AU a gyflwynwyd yn 2010, cynhaliwyd ymarfer modelu ariannol manwl ar effaith y cynnydd mewn ffioedd dysgu ar brifysgolion a'r cyllid ychwanegol a fyddai'n cael ei ddarparu i fyfirwyr israddedig llawn amser yn hanu o Gymru i gwmpasu unrhyw gynnydd mewn ffioedd.
13. Er mwyn cwblhau'r modelu cychwynol, gwnaed nifer o dybiaethau ynglŷn â'r nifer disgwylidig o fyfirwyr, y benthyciadau a fyddai'n cael eu cymryd a nifer o ffactorau eraill. Seiliwyd y tybiaethau hyn ar ddata tueddiadau blynyddoedd blaenorol yn ogystal ag amcangyfrifon at y dyfodol o ran ymddygiad myfyrwyr a sefydliadau.
14. Cynhaliwyd y modelu gwreiddiol ar gyfer y grant ffioedd dysgu yn ystod hydref 2010 a chafodd nifer o senarios eu modelu. Mae'r modelau wedi'u rhyddhau yn dilyn ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ym mis Chwefror (cyf Ed33) a mis Mawrth (cyf Ed53) 2011. Roedd y senarios modelu'n cynnwys uchafswm ffioedd dysgu o

£7,000 a £9,000. Gellir gweld yr wybodaeth drwy ddilyn y ddolen hon: <http://wales.gov.uk/publications/accessinfo/disclogs/dr2011/addysg/?lang=en>

15. Roedd y polisi a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2010 yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol ar gyfer blwyddyn academaidd (BA) 2012/13:

- uchafswm ffi dysgu amrywiadwy o £7,000 y flwyddyn mewn SAUau yng Nghymru a Lloegr;
- ffi o £3,500 y flwyddyn i SAUau yng Ngogledd Iwerddon, a ffi dysgu o £2,190 y flwyddyn mewn SAUau yn yr Alban (ffi 2011/12 gyda chynnydd chwyddiant o 2.7%);
- 100% o fyfyrwyr yn ymgymryd â grantiau ffioedd dysgu;
- rhaniad yn y flwyddyn ariannol: 51.5% BA flaenorol a 48.5% BA gyfredol;
- seiliwyd rhagolygon blynyddoedd y dyfodol ar ffioedd dysgu, elfennau benthyciad a grant, yn cynyddu gyda chwyddiant bob blwyddyn. Rhagwelwyd y byddai chwyddiant yn 2.7% ar gyfer 2012/13 ymlaen:
- ni fyddai myfyrwyr oedd yn parhau yn gymwys ar gyfer y cymorth newydd a byddent yn ddarostyngedig i'r pecyn cyfredol.

Mae Tabl 1 yn dangos niferoedd y myfyrwyr a fyddai'n gymwys am gymorth

**Tabl 1 - niferoedd myfyrwyr yn ôl Blwyddyn Academaidd**

Rhagamcanion niferoedd myfyrwyr (miloedd )	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Cymry mewn SAUau yng Nghymru: benthyciadau ffioedd llawn	11.991	21.982	30.433	32.837	34.182
Cymry mewn SAUau eraill yn y DU: benthyciadau ffioedd llawn	5.043	9.243	12.795	13.806	14.371
Myfyrwyr UE	0.803	1.485	2.061	2.225	2.316
Myfyrwyr y DU (nid Cymry) yng Nghymru	8.679	16.055	22.288	24.063	25.049

**Tabl.2: Rhagolygon ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13 hyd at 2016-17 (seiliedig ar y tybiaethau uchod)**

Grant/Benthyciad (Miliynau)	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Benthyciadau Ffioedd Dysgu	145.2	161.6	169.7	174.7	179.2
Grant Ffi Newydd	31.5	92.7	147.3	182.9	198.9
Cost Cyllideb Cyfrifyddu Adnoddau	47.0	53.4	58.0	61.4	62.9

16. Diwygiwyd y tybiaethau yn y modelu pan gyflwynodd sefydliadau yng Nghymru eu cynlluniau ffioedd (i CCAUC) gydag amcangyfrifon o lefelau ffioedd. Er nad oedd yn bosibl ar y cam hwnnw i gadarnhau union gyfartaledd lefel ffioedd yng Nghymru, penderfynwyd y dylai'r modelu fod yn ddarbodus a thybio cyfartaledd ffioedd o £9,000 y flwyddyn. Gwelir y modelu diwygiedig yn Nhabl 3:

**Tabl 3: Rhagolygon ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13 – 2016-17**

Grant/Benthyciad (Miliynau)	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Benthyciadau Ffioedd Dysgu	141.6	157.8	166.0	171.3	175.9
Grant Ffi Newydd	51.8	150.4	236.1	292.5	314.3

Cost Cyllideb Cyfrifyddu Adnoddau	44.5	47.5	48.2	49.5	50.3
-----------------------------------	------	------	------	------	------

### Modelu ariannol y grant ffioedd dysgu (2012/13)

17. Cynhyrchwyd y rhagolygon terfynol cyn blwyddyn academiaidd 2012/13 ym mis Gorffennaf 2012. Cytunwyd ar y tybiaethau canlynol:

- uchafswm ffi dysgu amrywiadwy o £9,000 y flwyddyn;
- 100% o fyfyrwyr yn ymgymryd â grant ffioedd dysgu;
- rhaniad yn y flwyddyn ariannol: 51.5% BA flaenorol a 48.5% BA gyfredol;
- seiliwyd rhagolygon blynyddoedd y dyfodol ar ffioedd dysgu, elfennau benthyciad a grant, yn cynyddu gyda chwyddiant bob blwyddyn. Rhagwelwyd y byddai chwyddiant yn 3.22% yn 2013/14, 3.3% yn 2014/15 a 3.3% yn 2015/16.

Mae Tabl 4 yn dangos niferoedd y myfyrwyr a fyddai'n gymwys am gymorth

**Tabl 4 niferoedd myfyrwyr yn ôl Blwyddyn Academiaidd**

Rhagamcanion niferoedd myfyrwyr (miloedd)	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Cymry mewn SAUau yng Nghymru: benthyciadau ffioedd llawn	11.908	21.183	29.128	31.366	31.895
Cymry mewn SAUau eraill yn y DU: benthyciadau ffioedd llawn	6.149	11.148	15.397	16.580	16.860
Myfyrwyr UE	1.079	1.962	2.730	2.948	3.000
Myfyrwyr y DU (nid Cymry) yng Nghymru	10.614	18.753	25.601	27.501	27.953

**Tabl 5: Rhagolygon ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13 i 2016-17 (o fis Gorffennaf 2012)**

Grant/Benthyciad (Miliynau)	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Benthyciadau Ffioedd Dysgu	138.9	155.3	164.3	170.8	176.1
Grant Ffi Newydd (a)	51.8	150.8	238.0	296.4	319.5
Cost Cyllideb Cyfrifyddu Adnoddau	43.6	46.7	47.7	49.4	50.3

(a) £5,535 o 12/13 – y gwahaniaeth rhwng ffioedd cyfredol a £9k

### Modelu ariannol grant ffioedd dysgu cyfredol (2013/14)

18. Gan ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, CCAUC, UCAS a HESA ac ystyried datganiad y Gweinidog ar 13 Medi 2012, cytunwyd ar y newidiadau canlynol i'r tybiaethau yn y model cyllid myfyrwyr:

#### Ar gyfer 2012/13:

- ffi dysgu o £8,680 y flwyddyn i fyfyrwyr o Gymru mewn SAUau yng Nghymru (cyfartaledd CCAUC);
- ffi dysgu o £8,385 y flwyddyn i fyfyrwyr o Gymru mewn SAUau yn Lloegr (cyfartaledd yr *Office for Fair Access (OFFA)*);
- ffi dysgu o £9,000 y flwyddyn i fyfyrwyr o Gymru mewn SAUau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon;

- ffi dysgu o £8,902 y flwyddyn i fyfyrwyr eraill o'r DU mewn SAUau yng Nghymru (cyfartaledd CCAUC);
- 98% o fyfyrwyr yn ymgymryd â grant ffioedd dysgu;
- rhaniad yn y flwyddyn ariannol: 51.5% BA flaenorol a 48.5% BA gyfredol.

Seiliwyd rhagolygon blynyddoedd y dyfodol ar;

- ffi dysgu o £8,291 y flwyddyn i fyfyrwyr o Gymru mewn SAUau yng Nghymru yn 2013/14 (cyfartaledd CCAUC), 2014/15 a 2015/16;
- ffi dysgu o £8,507 y flwyddyn i fyfyrwyr o Gymru mewn SAUau yn Lloegr yn 2013/14, 2014/15 a 2015/16 (cyfartaledd OFFA);
- ffi dysgu o £9,000 y flwyddyn i fyfyrwyr o Gymru mewn SAUau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn 2013/14, 2014/15 a 2015/16;
- ffi dysgu o £8,718 y flwyddyn i fyfyrwyr eraill o'r DU mewn SAUau yng Nghymru yn 2013/14 (cyfartaledd CCAUC), 2014/15 a 2015/16;
- i fyfyrwyr yn hanu o Gymru, byddai'r benthyciad ffioedd dysgu'n cynyddu gyda chwyddiant yn 2013/14, 2014/15 a 2015/16, a byddai elfen grant ffioedd dysgu y cymorth ffioedd yn lleihau'n unol â hynny. Rhagwelwyd y byddai chwyddiant yn 3.22% yn 2013/14, 3.1% yn 2014/15 a 3.2% yn 2015/16;
- cyfradd ymgymryd â grant ffioedd dysgu o 98%
- rhaniad yn y flwyddyn ariannol: 51.5% BA flaenorol a 48.5% BA gyfredol;

Mae Tabl 6 yn dangos niferoedd y myfyrwyr a fyddai'n gymwys am gymorth.

**Tabl 6**

Rhagamcanion niferoedd myfyrwyr (miloedd)	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Cymry mewn SAUau yng Nghymru: benthyciadau ffioedd llawn	11.821	21.198	29.196	31.447	31.978
Cymry mewn SAUau eraill yn y DU: benthyciadau ffioedd llawn	6.056	11.058	15.294	16.473	16.751
Myfyrwyr UE	1.006	1.835	2.554	2.760	2.808
Myfyrwyr y DU (nid Cymry) yng Nghymru	11.006	19.606	26.297	28.117	28.537

Dylid nodi nad yw'r union wybodaeth ar niferoedd myfyrwyr ar gyfer 2012-13 ar gael eto

**Tabl 7: Rhagolygon ar gyfer 2012-13 i 2016-17**


Grant/Benthyciad (Miliynau)	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17
Benthyciadau Ffioedd Dysgu	139.8	155.6	164.4	171.4	176.7
Grant Ffi Newydd (a) (b)	47.2	127.2	185.7	219.3	229.7
Cost Cyllideb Cyfrifyddu Adnoddau	43.9	46.8	47.6	49.5	50.5

(a) £5,535 o 12/13 – y gwahaniaeth rhwng ffioedd cyfredol a £9k

(b) Y gwir ddata alldro gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar gyfer 2012-13 oedd £47.8m

## Gwahaniaethau yn y modelu ers 2011 – 2013


Siart 7.1



19. Ers y rhagolygon cychwynnol disgynnodd cost ddisgwyliedig y grant ffioedd dysgu (yn ystod oes y Llywodraeth hon) o £1.2 biliwn dros 5 mlynedd i £809 miliwn.
20. Un o'r prif resymau am y gostyngiad yn rhagolwg cost y grant ffioedd dysgu yw bod cyfartaledd y ffi dysgu i fyfyrwyr o Gymru wedi lleihau o £9,000 y flwyddyn i £8,680 y flwyddyn yn 2012-13 ac o £9,000 y flwyddyn i £8,291 y flwyddyn i flynyddoedd y dyfodol.



## Siart 7.2



21. Cafwyd gostyngiad bach yng nghost ddisgwyliedig y benthyciad ffioedd dysgu, gyda'r costau'n disgyn o £830 dros bum mlynedd i £808 miliwn dros yr un cyfnod. Mae hyn yn adlewyrchu newid yn y gyfradd ddisgwyliedig o fyfyrwyr yn ymgymryd â'r benthyciad o 100% i 98% (o BA 2013/14).

### Incwm Ychwanegol i SAUau

22. Yn ogystal â'r grant ffioedd dysgu a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, mae SAUau hefyd yn derbyn incwm o ffynonellau eraill, er enghraifft incwm ffioedd dysgu gan fyfyrwyr nad ydynt yn hanu o Gymru sy'n astudio yng Nghymru a chyllid ar gyfer ymchwil.

23. Mae'r tybiaethau canlynol wedi'u cynnwys yn y modelu yn nhablau 8 a 9 sy'n tybio bod:

- y lefelau cyfredol o lif trawsffiniol a recriwtio myfyrwyr yn parhau ar yr un lefelau.

24. Nid yw data ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17 wedi'i gynnwys gan nad yw gwybodaeth am gyllidebau Llywodraeth Cymru ar gael ar hyn o bryd. Bydd cyllideb CCAUC yn dibynnu ar setliad terfynol Llywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru a'r ddarpariaeth cyllideb a gytunir ar gyfer yr Adran Addysg a Sgiliau.

Fodd bynnag byddai'n ochelgar i gynllunio gan dybio y bydd y toriadau cyllideb yn parhau yn 2016-17.


25. Byddai angen i dybiaethau cynllunio o ran gostyngiadau posibl gael eu cymhwyso i'r gyllideb Addysg a Sgiliau gyfan, ac yna byddai angen ystyried meysydd lle caiff cyllid ei ddiogelu megis ysgolion etc.

**Tabl 8: incwm ychwanegol a ragwelir i SAUau mewn arian parod (blwyddyn ariannol)**

Incwm a ragwelir i SAUau Cymru, gyda chyfartaledd ffioedd diffinedig a grant ffioedd dysgu, arian parod				
£Miliwn	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16
Grantiau Corff Cyllido	269	254	177	141
Ffioedd israddedig / TAR llawn amser / <i>Lefel gyfredol y ffioedd</i>	304	414	494	544
<i>Lefel gyfredol y ffioedd</i>	240	239	240	245
<i>Incwm ffioedd ychwanegol uwch</i>	37	101	148	175
<i>Cyfraniad o Loegr</i>	27	74	107	124
Ffioedd a chontractau addysg eraill	196	202	208	215
Grantiau / Contractau ymchwil	170	173	178	184
Incwm arall	278	283	291	301
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,217</b>	<b>1,324</b>	<b>1,349</b>	<b>1,384</b>

*Ffynhonnell: Rhagamcanion Llywodraeth Cymru, cofnod cyllid HESA a niferoedd myfyrwyr a ragwelir*

## Siart 9




**Tabl 10: incwm ychwanegol a ragwelir i SAUau mewn termau real (blwyddyn ariannol)**

Incwm a ragweir i SAUau Cymru, gyda chyfartaledd ffioedd diffinedig a grant ffioedd dysgu, arian parod				
£Million	2012-13	2013-14	2014-15	2015-16
Grantiau Corff Cyllido	269	246	166	129
Ffioedd israddedig / TAR llawn amser	299	396	459	490
<i>Lefel gyfredol y ffioedd</i>	237	230	223	221
<i>Incwm ffioedd ychwanegol uwch</i>	36	96	137	158
<i>Cyfraniad o Loegr</i>	27	71	99	112
Ffioedd a chontractau addysg eraill	193	193	193	193
Grantiau / Contractau ymchwil	170	170	170	170
Incwm arall	278	278	278	278
Cyfanswm	1,209	1,283	1,267	1,261

*Ffynhonnell: Rhagamcanion Llywodraeth Cymru, cofnod cyllid HESA a niferoedd myfyrwyr a ragwelir*

## Siart 11




26. Mewn termau arian parod, rhagwelir y bydd incwm i SAUau Cymru'n cynyddu ym mhob blwyddyn yn ystod oes y Llywodraeth hon.

27. Rhagwelir y bydd incwm o grantiau'r corff cyllido'n gostwng dros y blynyddoedd nesaf. Fodd bynnag disgwylir y bydd y cyfraniad gan fyfyrwyr nad ydynt yn hanu o Gymru'n cynyddu. Mae'r holl ffynonellau incwm eraill yn debygol o aros ar lefelau cymharol debyg.

## Llif traws-ffiniol

28. Mae Cymru yn fewnforiwr net o ran myfyrwyr o rannau eraill o'r DU, ac o ganlyniad mae sefydliadau yng Nghymru'n cael llawer mwy o incwm ffioedd gan y myfyrwyr hyn nag y mae CCAUC yn ei dalu mewn grant ffioedd i sefydliadau y tu hwnt i Gymru.
29. Mae siart 12 yn dangos gwerth y ffioedd y rhagwelir y bydd CCAUC yn eu talu i SAUau y tu hwnt i Gymru a gwerth y ffioedd y rhagwelir y bydd SAUau Cymru'n eu derbyn o'r tu hwnt i Gymru.

### Siart 12




**Tabl 13 Niferoedd myfyrwyr yn ôl blwyddyn academaidd**

£miliwn	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Cymru i Loegr	15.1	41.1	60.3	71.3	74.7
Gweddill y DU i Gymru	29.0	79.7	119.5	146.4	157.0

## Dyledion Myfyrwyr

30. Mae'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu (ac yn ei rhagflaenydd "Cymru'n Un") i fyfyrwyr i liniaru cost unrhyw gynnydd mewn ffioedd dysgu a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn seiliedig ar ein cred y dylai mynediad at addysg uwch yng Nghymru fod ar sail gallu'r unigolyn ac nid yr hyn y gall fforddio ei dalu.
31. Mae Siart 14 yn rhagweld lefel y ddyled i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru o'u cymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr dros y deng mlynedd nesaf (yn seiliedig ar systemau cyllid myfyrwyr cyfredol yn y ddwy wlad, ac eithrio costau llog). Mae'n dangos yr effaith y mae'r polisiau grant ffioedd dysgu a dileu benthyciadau cynnal a chadw yn rhannol wedi'u cael ar fyfyrwyr Cymru.

## Siart 14



### Nodiadau:

- i. At ddibenion dangosol yn unig. Ni ddylid defnyddio union ffigurau ar gyfer rhagamcanion.
- ii. Mae data hanesyddol hyd at y presennol (gan gynnwys cyfansymiau 2011/12) yn seiliedig ar ddata'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar y nifer o fenthycwyr a'r cyfanswm sy'n ddyledus.
- iii. Y rhagamcanion yn seiliedig ar y cyfartaledd 4 blynedd diweddaraf o newidiadau yn nifer y benthycwyr a'r swm sy'n ddyledus.

### Casgliad

32. Bydd y polisi ffioedd dysgu a gyflwynwyd yn 2012/13 yn parhau'n weithredol yn ystod tymor y Llywodraeth hon. Mae'r polisi wedi'i gostio'n llawn ac mae'n parhau'n gynaliadwy. Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi casglu mai cyfartaledd y cynnydd mewn cyllid i SAUau yng Nghymru yw 13.8 y cant yn 2013/14. Yn seiliedig ar dybiaethau a geir yn y model cyllid myfyrwyr, bydd y sector AU yn parhau i dderbyn cynnydd yng nghyfanswm ei hincwm tan o leiaf 2015-16, os yw sefydliadau'n gallu recriwtio'r nifer o fyfyrwyr a ddyrennir iddynt. Fodd bynnag bydd y ffigurau hyn yn ddibynnol ar ganlyniad yr adolygiad gwariant nesaf a'i effaith ar gyllid Llywodraeth Cymru.
33. Hyd yn oed yn yr hinsawdd economaidd gyfredol a gyda phwysau sylweddol ar gyllid y llywodraeth, mae incwm i'r sector AU yng Nghymru'n parhau'n gryf a rhagwelir y bydd yn cynyddu dros amser heb gynyddu'r ddyled i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn sylweddol.
34. Caiff y model ariannol sy'n cefnogi'r polisi hwn ei adolygu'n fisol gan swyddogion a'i ddiweddarau pan fydd gwybodaeth newydd ar gael.

## Goblygiadau eraill yn sgil diwygio cyllid AU

35. Mae goblygiadau uniongyrchol i'r trefniadau newydd ar gyfer cyllido addysg uwch a chymorth statudol i fyfyrwyr o ran y ffordd y mae CCAUC yn cyflawni ei swyddogaethau (mae'r goblygiadau cyllido eisoes wedi'u trafod uchod).
36. Mae gan CCAUC ddyletswydd statudol, dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, i sicrhau bod darpariaeth yn cael ei threfnu ar gyfer asesu ansawdd yr addysg a ddarperir mewn sefydliadau y mae'r Cyngor yn darparu cymorth ariannol iddynt, neu y mae'n ystyried gwneud hynny. Ar hyn o bryd mae CCAUC yn cyflawni'r ddyletswydd hon drwy'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA) ac mae'n gorfodi gofynion penodol yn ymwneud ag addysg uwch drwy amodau'n gysylltiedig â'r cyllid y mae'n ei ddyrannu i sefydliadau. Caiff gofynion CCAUC mewn perthynas â chyflwr ariannol a threfniadau llywodraethu sefydliadau hefyd eu gweithredu drwy amodau a osodir ar gyllid sydd ar gael i sefydliadau. Caiff yr amodau hyn eu cynnwys yn y memoranda ariannol rhwng y Cyngor a'r sefydliadau unigol.
37. Mae'r trefniadau cyfredol ar gyfer ffioedd dysgu addysg uwch yn seiliedig ar Ddeddf Addysg Uwch 2004 sy'n gwneud darpariaeth i sefydliadau yng Nghymru sy'n codi ffioedd sy'n uwch na'r swm sylfaenol (£4,000 ar hyn o bryd) er mwyn sicrhau cydraddoldeb mynediad at addysg uwch.<sup>1</sup> Mae'r trefniadau hyn wedi'u rhoi ar waith dan y gyfundrefn ffioedd newydd ar ffurf cynlluniau ffioedd ac ym mis Mawrth 2011, dynodwyd CCAUC yn gorff â chyfrifoldeb statudol yng Nghymru am gymeradwyo a gorfodi cynlluniau ffioedd. Yn unol â'r trefniadau newydd ar gyfer rheoli ffioedd dysgu o 1 Medi 2012, mae'n ofynnol i'r holl sefydliadau sy'n derbyn cyllid gan CCAUC ac sy'n dymuno codi ffioedd dros £4,000 y flwyddyn ar gyrsiau israddedig llawn amser fod â chynllun ffioedd cymeradwy. Rhaid i gynllun ffioedd y sefydliad egluro'r cyfryw fesurau, megis gwaith ymestyn a chymorth ariannol, a gaiff eu cyflwyno gan y sefydliad i hyrwyddo addysg uwch a chydaddoldeb mynediad at addysg uwch. Ategir gallu CCAUC i orfodi rheolaeth ar ffioedd ac ymrwymadau i gynlluniau ffioedd hefyd gan yr amodau sy'n gysylltiedig â chyllid y mae'r Cyngor yn ei ddyrannu i sefydliadau.
38. Dan y trefniadau cyllido newydd a gyflwynwyd o flwyddyn academiaidd 2012/13, bydd CCAUC yn dechrau talu cyfran sylweddol o gyllid grant rheolaidd addysg uwch (a ddyrannwyd yn flaenorol i sefydliadau gan CCAUC dan adran 65 Deddf Addysg Uwch 1992), drwy grantiau ffioedd dysgu myfyrwyr. Mae grantiau o'r fath y mae gan fyfyrwyr cymwys hawl iddynt yn sefyll y tu allan i drefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer rhoi cyllid i CCAUC i gyllido addysg uwch. Dros amser bydd gan y symudiad hwn o ran cyllido oblygiadau i'r modd y caiff swyddogaethau CCAUC eu cyflawni.

---

<sup>1</sup> Mae Gweinidogion Cymru wedi llunio rheoliadau dan Ddeddf Addysg Uwch 2004 sy'n egluro gofynion mynediad teg, sef: Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi eu Cymeradwyo) (Cymru) 2011 (SI 2011/884) (W.128) a Rheoliadau Deddf Addysg Uwch 2004 (Awdurdod Perthnasol) (Dynodi) (Cymru) 2011(SI 2011/658) (W. 96).

39. Bydd dylanwad CCAUC dros y sector addysg uwch drwy amodau'n gysylltiedig â'r grant rheolaidd a ddyrennir i sefydliadau'n lleihau dros amser wrth i gyfran sylweddol fwy o gyllid y sefydliadau ddeillio o ffioedd dysgu. Mae gan hyn oblygiadau o ran y ffordd y mae CCAUC:
- yn gosod rheolaeth ar ffioedd ac yn gorfodi ymrwymadau i gynlluniau ffioedd;
  - yn darparu ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch;
  - yn darparu sicrwydd am gyflwr ariannol a threfniadau llywodraethu sefydliadau.
40. Mae tirwedd addysg uwch yn mynd drwy newid sylweddol o ran y math o ddarpariaeth a natur y darparwyr, er enghraifft cynnydd mewn e-ddysgu a dysgu o bell a darparwyr mwy gwahaniaethol gyda rhagor o gyrsiau addysg uwch yn cael eu cynnig mewn sefydliadau AB a gan ddarparwyr eraill. Yn ogystal, wrth i incwm ffioedd ddisodli'r grant rheolaidd a ddyrennir gan CCAUC i sefydliadau AU Cymru, bydd yn dod yn gynyddol anoddach i ddibynnu ar swyddogaethau presennol CCAUC er mwyn: gorfodi rheolaeth ffioedd, asesu ansawdd darpariaeth addysg uwch a darparu sicrwydd ynglŷn â'r defnydd o arian cyhoeddus. Mae angen i'r drefn reoleiddio a weinyddir gan CCAUC weithredu ar draws yr ystod lawn o gyrsiau y mae Gweinidogion Cymru'n eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth myfyrwyr statudol. O ganlyniad, mae angen diwygio swyddogaethau CCAUC i adlewyrchu'r newidiadau yn nhirwedd addysg uwch a'r cymorth i ffioedd dysgu a threfniadau cyllido.
41. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried y dylai fod yn ofynnol i'r holl sefydliadau a darparwyr eraill sy'n cynnig cyrsiau addysg uwch sydd wedi'u dynodi at ddiben cymorth i fyfyrwyr gydymffurfio â'r drefn reoleiddio er mwyn gwarchod buddiannau myfyrwyr, trethdalwyr a chymdeithas Cymru (er y bydd mesur tynnach o reoli mewn perthynas â'r cyrsiau hynny sy'n cael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr yn gymesur â natur y cymorth ar gael). Mae angen fframwaith rheoleiddio newydd ar addysg uwch, i ddarparu sicrwydd am gyflwr ariannol a threfniadau llywodraethu darparwyr addysg uwch ac ansawdd eu darpariaeth, gorfodi rheolaeth ffioedd a diogelu cydraddoldeb mynediad at addysg uwch yng Nghymru. Bwriad Llywodraeth Cymru yw cyflwyno bil yn ystod tymor y Cynulliad hwn i geisio darpariaeth i CCAUC gael trosolwg rheoleiddiol o'r holl gyrsiau addysg uwch a ddynodwyd yn awtomatig ar gyfer cymorth statudol i fyfyrwyr a gyflwynir yng Nghymru. Ceir disgrifiad o'r darpariaethau penodol a geisir yn yr adrannau sy'n dilyn.

## **Heriau a Chyfleoedd**

42. Mae'r sector AU wedi profi newid mawr. Mae mathau newydd o ddarparwyr wedi ymuno â'r farchnad yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae nifer sylweddol o gyrsiau AU bellach yn cael eu haddysgu mewn colegau addysg bellach. Daeth datganoli â phwerau newydd i Gymru sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i weithio'n agosach gyda phrifysgolion a darparwyr AU eraill. Gyda Llywodraeth y DU yn rhoi argymhellion adroddiad Browne ar waith, cafwyd newid sylfaenol yn y modd y caiff addysg uwch ei chyllido. Mae



trefniadau cyllido newydd ar gyfer addysg uwch wedi arwain at newidiadau yn y ffordd rydym ni'n rhoi cefnogaeth i ddysgwyr mewn addysg uwch.

43. Mae newidiadau strwythurol sydd wedi'u cyflwyno gan un Llywodraeth ar ôl y llall yng Nghymru yn golygu fod sector addysg uwch Cymru yn gryfach ac yn fwy cynaliadwy. Ym mis Ebrill eleni, unodd Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd i greu Prifysgol De Cymru sy'n gwasanaethu rhanbarth cyfan de ddwyrain Cymru. Daeth yr uno rhwng Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe'n weithredol ym mis Awst 2013.
44. Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr AU a gyda CCAUC i gyflawni ein huchelgais cyffredin i gael system addysg uwch o safon fyd-eang yng Nghymru sy'n gwasanaethu buddiannau dysgwyr a'r genedl yn yr unfed ganrif ar hugain. Rydym ni'n credu y gall y cydweithio agos hwn rhwng y Llywodraeth a'r sector ei hun weithio er budd pawb.
45. Er mwyn sicrhau bod gan Gymru'r sgiliau sydd eu hangen arni i wynebu heriau'r dyfodol, rhaid i brifysgolion a myfyrwyr gael mynediad at yr adnoddau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod strategaeth glir o ran ffioedd dysgu a chymorth. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i gyflwyno nifer o newidiadau bob yn dipyn, a gallai rhai o'r rhain gael effaith anfwriadol ar brifysgolion yng Nghymru.
46. Bydd angen monitro ac adolygu modelau cyllido prifysgolion a chyllid myfyrwyr yn ofalus yng ngoleuni unrhyw newidiadau pellach mewn polisi neu niferoedd a llif myfyrwyr er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol posibl a sicrhau nad yw prifysgolion yng Nghymru yn cael eu dadsefydlogi o ganlyniad i hynny. Gyda risg daw cyfleoedd a rhaid i brifysgolion geisio gwneud y gorau o unrhyw gyfleoedd yn y dirwedd symudol sydd ohoni.
47. Mae'r cyd-destun y mae darparwyr addysg uwch yng Nghymru yn gweithio ynddo yn newid yn gyflym. Mae'r newidiadau sylfaenol i'r ffordd y caiff addysg uwch yn y DU ei chyllido, ynghyd ag arloesi technolegol a disgwyliadau cynyddol gan fyfyrwyr, yn gosod her i fodelau cyflenwi traddodiadol. Mae'r gwahaniaeth rhwng gwahanol fathau o gyflenwi yn gynyddol niwlog o safbwynt y dysgwyr, gyda llawer o fyfyrwyr hefyd yn gweithio'n llawn amser neu ran amser, gydag ymrwymadau gofalu llawn neu ran amser. Gall y sector AU yng Nghymru ymateb drwy ddatblygu modelau darparu mwy hyblyg, yn llawn a rhan amser, er mwyn adeiladu dyfodol mwy llwyddiannus a chynaliadwy.

### **Myfyrwyr rhyngwladol**

48. Bydd prifysgolion a Llywodraeth Cymru'n gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu cysylltiadau rhyngwladol fydd yn helpu Cymru i ddod yn bartner o ddewis i fusnes a buddsoddi rhyngwladol ac yn gyrchfan o ddewis i fyfyrwyr a staff rhyngwladol. Mae angen i Gymru gryfhau a chynyddu gwerth y cysylltiadau rhyngwladol sydd eisoes wedi'u creu gan brifysgolion, a defnyddio'r cysylltiadau hyn i sbarduno mewnfuddsoddi. Rhaid i Gymru anfon

